

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

---

Dyddiad:

**Dydd Mercher, 2 Gorffennaf 2014**

---

Amser:

**09.30**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Llinos Madeley / Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8403/8600

[PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk)

---

## Agenda

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda Chomisiynydd y Gymraeg (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 39)

I gynnwys trafod Adroddiad y Comisiynydd, ‘Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i’r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol’.

- Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg
- Gwenith Price, Cyfarwyddwr Strategol

### 3 Papurau i’w nodi (Tudalennau 40 – 41)

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Adroddiad Grŵp Technegol Cymhwysedd (Tudalennau 42 – 43)

Llythyr gan Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (Tudalennau 44 – 46)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**5 Ymchwiliad i wasanaethau orthodontig yng Nghymru: trafod yr adroddiad drafft (10.30 – 11.15) (Tudalennau 47 – 83)**

**6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor: amserlen tymor yr hydref (11.15 – 11.30) (Tudalennau 84 – 88)**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



**Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner**

## **Gwybodaeth Ysgrifenedig ar waith Comisiynydd y Gymraeg yn y maes Iechyd a Gofal**

### **Papur 1**

Gwybodaeth ysgrifenedig ar ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol

### **Papur 2**

Gwybodaeth ysgrifenedig ar waith Comisiynydd y Gymraeg yn y maes Iechyd a Gofal

- Adran 1: Cynlluniau iaith Gymraeg y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru
- Adran 2: Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg
- Adran 3: Cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg mewn Iechyd a Gofal
- Adran 4: Perthynas gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Adran 5: Mwy na geiriau – Fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol
- Adran 6: Integreiddio Iechyd a Gofal cymdeithasol
- Adran 7: Presgripsiynau cyfrwng Cymraeg
- Adran 8: Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### **Atodiad 1**

Rhestr lawn o'r sefydliadau Iechyd a Gofal sy'n rhan o gylch 2 a 3 ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## **Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol**

Papur 1

O dan Adran 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur), mae hawl gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gynnal Ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Mae gan y Comisiynydd bŵer i wneud argymhellion, cyflwyno sylwadau a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru neu unrhyw berson. Mae Atodlen 2 y Mesur yn manylu ar y darpariaethau.

## Llinell amser

<b>Ebrill 2013</b>	Cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymholiad
<b>Mai 2013</b>	Cyhoeddi galwad am dystiolaeth
<b>Mehefin 2013</b>	Panel yr ymholiad yn cychwyn ar gyfres o gyfarfodydd craffu
<b>Awst 2013</b>	Cyfarfodydd cyhoeddus yn yr Eisteddfod Genedlaethol
<b>Medi 2013</b>	Cyfres o gyfarfodydd ar hyd a lled Cymru
<b>Hydref 2013</b>	Beaufort Reseach yn cychwyn cynnal arolwg
<b>Rhagfyr 2013</b>	Gweinidog a'r Dirprwy dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno tystiolaeth gerbron y panel yr ymholiad
<b>Chwefror 2014</b>	Drafftio adroddiad yr ymholiad
<b>Ebrill 2014</b>	Setlo'r adroddiad gan roi'r cyfle i Weinidogion roi sylwadau ar y drafft
<b>Mehefin 2014</b>	Cyhoeddi adroddiad yr ymholiad

### Cyswllt â'r cyhoedd/rhanddeiliaid:

- 23 digwyddiad cyhoeddus
- 8 digwyddiad rhanddeiliaid (rhannu gwybodaeth a chanfod barn)
- Cyfarfodydd rhwng y Comisiynydd a'i swyddogion a swyddogion gwahanol sefydliadau yn ystod 2013-14
- Sylw yn y wasg genedlaethol a lleol, teledu, radio a chyfryngau cymdeithasol

### Galwad am dystiolaeth:

- 170+ aelodau'r cyhoedd yn cysylltu â thîm yr ymholiad
- 26 o randdeiliaid yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol
- 16 o randdeiliaid wedi cyflwyno tystiolaeth lafar i'r panel

## Arolwg Beaufort Research

- Cynhaliwyd arolwg meintiol o 1,010 o siaradwyr Cymraeg rhugl ac arolwg ansoddol o 120 o siaradwyr Cymraeg rhugl er mwyn derbyn gwybodaeth am eu profiad o dderbyn neu fethu â derbyn gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, a sgil effaith hynny.
- Mae adroddiad Beaufort Research wedi ei gyhoeddi ar wefan Comisiynydd.

### Prif ganfyddiadau profiadau cleifion:

#### Ansoddol

Mae'r themâu a gododd o arolwg Beaufort yn cyfateb i'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd:

- Gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol drwy'r Gymraeg
- Mater o barch ac urddas yw defnyddio'r Gymraeg
- Diffyg gwybodaeth am wasanaethau / dewis iaith
- Diffyg darpariaeth yn gyffredinol
- Disgwyliadau isel / Angen cynnig rhagweithiol
- Pam fod yn well gan y claf ddefnyddio'r Gymraeg
- Achosion sy'n amlygu risg glinigol wirioneddol

#### Meintiol

[Sampl o 1,010 o siaradwyr Cymraeg rhugl a ddefnyddiodd wasanaeth gofal sylfaenol yn y 12 mis diwethaf. Roedd yr astudiaeth wedi rhannu Cymru'n 3 ardal: ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a gweddill Cymru.]

#### Profiad cyffredinol

- Saesneg yw prif iaith gwasanaethau gofal sylfaenol i fwyafrif siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar gyfartaledd, 28% o gyswllt sy'n digwydd yn Gymraeg. (Mae'r ffigur hwn yn amrywio'n fawr: gydag uchafswm o 41% o brofiad gyda nyrsys practis i 15% gyda gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau).

### Daearyddiaeth

- Mae gwahaniaeth sylweddol yn ôl daearyddiaeth gyda 55% yn ardal Betsi Cadwaladr yn cael profiad Cymraeg gyda nyrs practis er enghraifft gyda hyn yn mynd lawr i 6% yn ardal byrddau iechyd y de a'r canolbarth).

### Pa ddarparwyr?

- Mae cleifion fwyaf tebygol o gael gwasanaeth Cymraeg gan nyrs practis mewn meddygfa a lleiaf tebygol o dderbyn un gan wasanaethau tu allan i oriau, deintyddion ac optegwyr.

### Bodlonrwydd cyffredinol

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu bodlonrwydd gydag argaeledd gwasanaethau Cymraeg: ar draws Cymru gyfan 65% yn fodlon ar y cyfan ond llai na hanner (46%) yn fodlon yn y de a'r canolbarth.

### Bwlch yn y ddarpariaeth

- O'r rheini na dderbyniodd wasanaeth Cymraeg ar eu hymweliad diwethaf, byddai wedi bod yn well gan fwy na thraean ohonynt (37%) dderbyn y gwasanaeth yn Gymraeg neu gymysgedd o Gymraeg a Saesneg. Y rheswm pennaf a nodwyd oedd y byddai'r profiad wedi bod yn un gwell iddynt.

### Bwlch rhwng disgwyliadau

- Mae disgwyliadau siaradwyr Cymraeg sydd wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg yn uwch na'r rhai hynny nad ydyn wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg. Byddai'n well gan 77% ddefnyddio'r Gymraeg neu gymysgedd o Gymraeg a Saesneg.

### Dim gwahaniaeth gan rai

- Mae nifer o'r rhai a holwyd yn nodi nad oes gwahaniaeth ganddynt ai yn Gymraeg neu Saesneg y darperir y gwasanaeth: tua 4 o bob 10 o'r rheini gafodd wasanaeth Saesneg a thua 2 o bob 10 o'r rheini gafodd wasanaeth yn Gymraeg.



### Hawl cleifion i fynegi eu hunain

- Mae 90% o'r rhai a holwyd o'r farn y dylai fod yn fater o hawl i siaradwyr Cymraeg fynegi'u hunain yn Gymraeg, ble bynnag y maent yng Nghymru.

### Cynnig rhagweithiol

- Lleiafrif bach iawn wnaeth adrodd iddynt dderbyn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg (amrywio rhwng 3-6%).
- Mae 83% o'r farn os oes siaradwr Cymraeg (meddyg, nyrs, deintydd, fferylllydd ee) ar gael dylid cynnig apwyntiad Cymraeg i siaradwyr Cymraeg bob tro.

### Hawl i gynnig rhagweithiol

- Mae 82% o'r rhai a holwyd o'r farn y dylid cynnig gwasanaeth Cymraeg i siaradwyr Cymraeg fel mater o hawl.

### Diffyg gwybodaeth

- Mae cyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn ansicr a oes darpariaeth Gymraeg ar gael iddynt. Dywedodd 42% na fyddant yn gwybod sut i ddod o hyd i ddarpariaeth Gymraeg (66% yn ardal byrddau iechyd de a chanolbarth Cymru).

### Pobl ifanc

- Yn ôl y sampl, pobl ifanc 16-34 sydd leiaf tebygol o fod wedi defnyddio'r Gymraeg yn eu cyswllt diwethaf â gwasanaeth gofal sylfaenol. Mae angen edrych yn fanylach i'r rhesymau dros yr ystadegau hyn.

### Galw lechyd Cymru

- Dylid nodi mai sampl o 137 yw hwn o'r brif sampl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y 12 mis diwethaf. Serch hynny mae'n rhoi cipolwg ar brofiad:

- Dim ond 40% ddewisodd yr opsiwn Cymraeg (ymhlith y rhesymau: gwell trafod yn

Saesneg; aelodau eraill o'r teulu'n ddi-Gymraeg; disgwyl i'r gwasanaeth Saesneg fod yn gyflymach)

- O'r rheini cafodd 58% y sgwrs gyntaf yn Gymraeg.
- O'r rheini gafodd eu cyfeirio ymlaen wedyn (73%) dim ond ychydig dros eu hanner gafodd wasanaeth Cymraeg.
- 16-34 yw'r ystod oed ddefnyddiodd y gwasanaeth fwyaf (gweler uchod)

## Yr Adroddiad

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ar Fehefin 10fed 2014 yn crynhoi'r dystiolaeth ddaeth i law gan y cyhoedd, drwy'r arolwg a gynhaliwyd a chan randdeiliaid. Mae'n amlinellu casgliadau'r Comisiynydd sy'n sail i'w hargymhellion.

Caiff adroddiad llawn ei gyhoeddi'n electronig ar ein gwefan, mae'r adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad manwl o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, profiad cleifion o wasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru heddiw, astudiaethau achos, dyfyniadau aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid a ffynonellau ymchwil ac arfer gorau.

Bydd yr adroddiad llawn o ddi-ddordeb i unrhyw un sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal, yn enwedig rheini sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau a gwella profiad cleifion. Bydd hefyd o ddi-ddordeb i reoleiddwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant wrth i'r adroddiad edrych ar y ffactorau sy'n gyfrifol am greu gweithlu addas i wlad ddwyieithog.

## Casgliadau ac argymhellion

### Eglurder ac arweiniad i'r maes

- Mae'r Comisiynydd yn gofyn i Weinidogion Cymru ymateb yn llawn i'r adroddiad hwn gan bennu Prif Swyddog o fewn y Llywodraeth yn gyfrifol am arwain ar y gwaith o wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gofal sylfaenol

### Parch ac urddas

- Mae cydnabod hunaniaeth rhywun fel siaradwr Cymraeg a chael defnyddio'r Gymraeg yn elfen fawr o drin cleifion gyda pharch ac urddas. Mae'n bwysig i gleifion ac yn elfen amlwg o werthoedd proffesiynol ac ansawdd gwasanaeth. Serch hynny mae profiad cleifion yn amlygu pryderon ac felly mae'r Comisiynydd yn galw am arweiniad polisi clir a chyfarwyddyd ymarferol i ddarparwyr.
- Mae'r Comisiynydd hefyd yn galw am arweiniad ar y berthynas rhwng defnyddio'r Gymraeg ac ansawdd gofal.

### Dewis iaith a dyletswydd darparwyr

- Mae angen arweiniad ar y cysyniad hwn a'i ddiffinio'n glir. Mae angen i ddarparwyr wybod yn union beth sy'n ddisgwyliedig. Mae angen i gleifion wybod pa wasanaethau y gallant ddisgwyl yn Gymraeg.

### Cynnig rhagweithiol

- Mae'r dystiolaeth yn amlgu bwlch rhwng y ddarpariaeth Gymraeg a chynnig gwasanaethau yn rhagweithiol, mae potensial yn bodoli heddiw i gynyddu faint o wasanaethau gaiff eu cynnig yn rhagweithiol. Bydd hyn maes o law yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth cleifion a sicrhau bod gwybodaeth glir am yr hyn sydd ar gael yn amlwg. Mae'r Comisiynydd yn galw am arweiniad polisi er mwyn gweithredu systematig i wella ansawdd profiad cleifion.
- Gofynnir hefyd am fesur yn flynyddol canran y cleifion gaiff gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol er mwyn olrhain cynnydd.
- Mae angen gwreiddio'r cysyniad mewn addysg a hyfforddiant
- Mae angen gwreiddio'r arfer mewn canllawiau a chyfarwyddyd
- Mae angen dulliau ymarferol a gweladwy
- Mae angen defnyddio mesurau arolygu perfformiad cyrff a boddhad cleifion
- Mae angen ymgynghori mwy ystyrlon gyda chleifion Cymraeg eu hiaith.

### Cynllunio gwasanaethau

- Un o'r casgliadau amlwg yw'r angen i drefnu'r gwasanaeth o amgylch y claf ac nid fel arall. Mae gofal sylfaenol yn symud i gyfeiriad lle bydd y claf fwy fwy yn ganolbwynt i'r pecyn gofal o'i amgylch ac mae'r model mwy cydweithredol a datblygiad rhwydweithiau cymdogaeth yn cynnig cyfleoedd a phosibiliadau.
- Mae'r Comisiynydd yn y lle cyntaf yn gofyn i Weinidogion Cymru a chyrff sy'n gyfrifol am sicrhau darpariaeth gofal sylfaenol i fesur y capasiti yn y gweithlu presennol i gynnig gwasanaethau Cymraeg.
- Mae'r Comisiynydd yn galw ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod canlyniadau i siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried wrth i wasanaethau'r dyfodol gael eu cynllunio. Mae Mesur y Gymraeg yn rhoi statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru ac mae disgwyl i Weinidogion Cymru lywio gwasanaethau sy'n gyson ag egwyddorion y Mesur gan symud oddi wrth ddarparu profiadau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Saesneg yn unig i siaradwyr Cymraeg.

### Prif ffrydio

- Yr hyn ddaeth i'r amlwg drwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd oedd diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau. Roedd sawl un yn cyfeirio at y contractau cenedlaethol a'r diffyg sylw at y Gymraeg yn benodol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys canllawiau a fframweithiau; rheoleiddio ac arolygu.

### Y Gweithlu

- Anghysondeb ar draws y sector o ran cydnabod y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle. Mae angen cydnabyddiaeth o addysg uwchradd ymlaen. Man cychwyn i gynllunio gweithlu presennol a dyfodol; mesurau ansawdd gwasanaethau.
- Mae bylchau mewn data – mae angen unioni hyn er mwyn bwydo gwybodaeth ystyrlon i brosesau cynllunio gweithlu.
- Mae'r Comisiynydd yn gofyn i Weinidogion Cymru gynnig arweiniad cenedlaethol i fynd i'r afael â gofynion cynllunio gweithlu dwyieithog gan ymateb i'r diffyg presennol. Bydd gofyn cynllunio ar y cyd â chyrrff iechyd a darparwyr addysg a hyfforddiant.
- Mae angen cryfhau'r berthynas gomisiynu rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr a darparwyr addysg fel bod anghenion gweithlu dwyieithog yn rhan o'r llif gwybodaeth.
- Mae elfennau'r seilwaith yn eu lle ac mae darpariaethau mewn rhai meysydd ym maes addysg uwch yn datblygu. Mae'r Comisiynydd yn galw am gydweithio er mwyn saernïo rhaglenni hyfforddi i ddiwallu anghenion darpariaeth Gymraeg yn y sector.
- Mae hefyd angen i gyrff rheoleiddio sydd â dylanwad ar gwricwlwm iechyd a gofal brif ffrydio ystyriaethau o'r Gymraeg yn eu gofynion rheoleiddio.

### Technoleg

- Roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn codi pryderon ynghylch diffyg prif ffrydio darpariaethau ym maes technoleg. Mae angen hwyluso gofynion darparwyr i ddiwallu anghenion cleifion Cymraeg ac felly mae'r Comisiynydd yn galw am sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau technoleg yn gwireddu hyn.
- Y prif faterion ddaeth i'n sylw drwy'r dystiolaeth oedd diffyg darpariaeth a chysondeb yn y ddarpariaeth o ran cofnodi anghenion iaith cleifion a'r llif gwybodaeth ddilynol; a chofnodi sgiliau staff.
- Unwaith eto, mae datblygiadau yn y maes o ran meddygfeydd yn cynnig cyfleoedd.

### Ymchwil a data

- Roedd nifer o randdeiliaid yn nodi'r angen am fwy o ddata ar y Gymraeg ym maes iechyd er mwyn sicrhau sail wybodaeth gadarn i ddealltwriaeth broffesiynol ac er mwyn cynllunio gwasanaethau yn effeithiol.
- Nodwyd yr angen i brif ffrydio'r Gymraeg i faes ymchwil gan gynnwys arolygon a holiaduron cleifion.
- Rhaid talu sylw penodol i ganlyniadau iechyd cleifion Cymraeg ei hiaith.
- Mae'r Comisiynydd yn galw ar sylfaen o wybodaeth i fwydo rhaglen wella ym maes gofal sylfaenol i arwain at well canlyniadau. Mae angen adnabod dangosyddion allweddol a llenwi bylchau yn y sail wybodaeth.
- Mae'r Comisiynydd yn gofyn bod unrhyw wybodaeth ymchwil ar gael yn eang er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n cynllunio gwasanaethau ac yn cynllunio'r gweithlu i ddiwallu anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith yn effeithiol.

## Y camau nesaf

Man cychwyn yw'r adroddiad hwn. Mae'n rhoi darlun i ni o realiti profiad cleifion heddiw gan edrych ar y rhwystrau sy'n bodoli i gleifion ac i ddarparwyr. Mae hefyd yn talu sylw i'r cyfleoedd a amlygwyd gan rhanddeiliaid hefyd. Mae'n codi nifer o gwestiynau i Weinidogion Cymru, i'r sector iechyd a thu hwnt - a hefyd i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd swyddogion nawr yn cynllunio'r camau nesaf. Ysgogi trafod yn y lle cyntaf bydd yr adroddiad ond y bwriad yw hwyluso'r trafod hwnnw a chymryd camau pellach; darparu cyngor ar sawl lefel – ar lefel bolisi ac ar lefel ymarferol.

Mae'r Comisiynydd yn gofyn i Weinidogion Cymru ymateb yn llawn i'r argymhellion o fewn chwe mis. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi mynegi parodrwydd i adnabod y camau nesaf.

Mewn cyfarfod gyda'r Panel ym mis Mai nodwyd y prif gamau i'r Comisiynydd a'i swyddogion yn y misoedd nesaf:

- [Medi 2014](#) Cychwyn ar raglen gyswllt gyda rhanddeiliaid
- [Hydref 2014](#) Seminar gan y Comisiynydd
- [Rhagfyr 2014](#) Ailymgynnull panel yr ymholiad i ystyried ymateb Gweinidogion Cymru.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## **Gwybodaeth ysgrifenedig ar waith Comisiynydd y Gymraeg yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Papur 2



## **1. Cynlluniau Iaith Gymraeg y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

Prif ddull cyrff cyhoeddus o adrodd ar berfformiad yn erbyn targedau eu Cynlluniau Iaith Gymraeg yw'r adroddiad monitro blynyddol. Mae pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol (GIG) yng Nghymru wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn flynyddol.

Derbyniwyd adroddiadau am y flwyddyn 2012-13 yn ystod mis Mehefin 2013 gan y deg sefydliad. O ganlyniad, derbyniodd pob sefydliad ymateb ffurfiol i'w hadroddiadau gan y Comisiynydd oedd yn cynnig sylwadau ar y cynnwys ac argymhellion penodol. Yn sgil hynny cynhaliwyd cyfarfodydd adborth gyda swyddogion y sefydliadau i drafod adroddiadau unigol ac i ystyried unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

O ran perfformiad, mae sawl corff yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at sicrhau cyflawniad Cynllun Iaith. Fodd bynnag, nodwyd fod nifer o'r meysydd lle na welwyd cynnydd digonol yn gyffredin i nifer o'r cyrff. Mae dau fater yn parhau i fod yn broblemus. Yn gyntaf, cynllunio'r gweithlu yng nghyswllt sgiliau iaith Gymraeg. Cydnabyddir y ceir anawsterau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg i rai meysydd yn y sector iechyd a gofal. Er hynny, ymddengys mai ychydig iawn o waith sydd wedi ei wneud ar draws y GIG i sicrhau bod sgiliau iaith yn elfen o gynllunio'r gweithlu (gyda dim ond un o'r byrddau iechyd wedi mabwysiadu ac yn gweithredu strategaeth sgiliau iaith Gymraeg). Nid yw anawsterau recriwtio yn esgusodi sefydliadau rhag cael strategaeth yn ei le er mwyn sicrhau gweithlu medrus yn y Gymraeg. Yr ail faes problemus yw gwasanaethau a ddarperir gan eraill drwy gontract yng nghyswllt darpariaeth gofal sylfaenol. Gwelir fod angen i gyrff y sector fod yn fwy rhagweithiol yn eu perthynas â'r darparwyr trydydd parti, a'u bod yn cynllunio'n fwy systematig a strategol er mwyn sicrhau y caiff anghenion iaith eu diwallu.

Mae'r broses adrodd yn galluogi'r Comisiynydd, a'r sefydliadau i adnabod risgiau i weithrediad y Cynllun Iaith. Yn ychwanegol at y meysydd problemus uchod, adnabuwyd y strwythur newydd i wasanaethau a rennir gan gyrff y GIG yng Nghymru, ac isadeiledd technoleg gwybodaeth y GIG fel y prif risgiau sy'n gyffredin i'r holl sefydliadau.

Mewn adroddiad gorolwg o adroddiadau monitro blynyddol, cynigiodd y Comisiynydd naw argymhelliad er mwyn gwella perfformiad ar gyfer y dyfodol. Roedd yr argymhellion hynny yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Polisiau a mentrau newydd
- Contractio a chomisiynu gwasanaethau
- Sgiliau iaith
- Recriwtio
- Hyfforddiant
- Technoleg
- Gwefannau a chyfryngau newydd

Bydd cynllun iaith Gymraeg cyfredol pob sefydliad, a'r trefniadau monitro cyfredol, yn parhau nes i Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg gael eu gosod ar y sefydliad.

## 2. Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar rai sefydliadau (personau perthnasol) i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cychwynnodd y Comisiynydd ar y broses statudol o osod dyletswyddau ar sefydliadau drwy gynnal ymchwiliad safonau, er mwyn dyfarnu a ddylai sefydliad orfod cydymffurfio â safonau, ac os dylent, pa safonau ddylai fod yn benodol gymwys iddynt.

Cwblhawyd y cylch cyntaf o ymchwiliadau safonau mewn perthynas â chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, ar 18 Ebrill 2014. Defnyddiwyd y dystiolaeth ddaeth i law er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i gasgliadau mewn adroddiadau safonau. Cyflwynwyd yr adroddiadau safonau at sylw Gweinidogion Cymru ar 30 Mai 2014.

Bydd y Comisiynydd yn cynnal yr ail gylch o ymchwiliadau safonau ym mis Medi 2014, a rhagwelir cynnal y trydydd cylch ym mis Mawrth 2015. Cyhoeddwyd rhaglenni ar gyfer cynnal ymchwiliadau safonau cylchoedd 2 a 3 ar wefan y Comisiynydd ar 27 Ionawr 2014 fel ei bod yn glir i sefydliadau a'r cyhoedd beth yw rhaglen cynnal ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Bydd prif gyrff iechyd Cymru, gan gynnwys y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd, yn cael eu cynnwys yn ymchwiliadau safonau cylch 2. Darperir rhestr lawn o sefydliadau iechyd a gofal sy'n rhan o gylch 2 a 3 yn atodiad 1.

### 3. Cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg mewn lechyd a Gofal

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bŵer statudol i ymchwilio i fethiant gan sefydliadau i weithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg, ac i ymateb i gwynion am ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Lle bo gan unigolyn gŵyn yn erbyn sefydliad cyhoeddus, disgwylir i'r unigolyn gyflwyno'r gŵyn yn gyntaf i'r sefydliad dan sylw, a rhoi cyfle iddo ymateb. Os na fydd y sefydliad yn darparu ymateb i'r gwyn sy'n bodloni'r unigolyn, bydd y Comisiynydd yn ystyried y gŵyn yn fanwl. Lle nad oes modd datrys y gŵyn yn anffurfiol, neu os bydd yn ymddangos bod methiant difrifol wedi digwydd ar ran sefydliad cyhoeddus, caiff y Comisiynydd ddechrau ymchwiliad ffurfiol. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried safbwynt yr achwynydd a safbwynt y sefydliad cyhoeddus.

Mae'r Comisiynydd wedi derbyn y nifer canlynol o gwynion am y maes lechyd a Gofal:

2013/14 – 27 cwyn

2012/13 – 32 cwyn

Derbyniodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y nifer canlynol o gwynion am y maes lechyd a Gofal:

2011/12 – 20 cwyn

2010/11 – 26 cwyn

2009/10 – 24 cwyn

### 4. Y berthynas gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn

Arwyddodd Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Pobl Hŷn femorandwm cyd-ddealltwriaeth ar Fehefin 10fed, 2014 sy'n gosod sut y byddant yn cydweithredu, gweithio ar y cyd a chyfnewid gwybodaeth.

Mae Adran 21 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio'n gyfochrog ag ombwdsryn a chomisiynwyr eraill. Gall gynnwys:

- Cydweithredu mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau
- Cynnal ymchwiliad ar y cyd
- Paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau neu â'u hymchwiliadau ar y cyd.

## **5. Mwy na geiriau – Fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol**

Sefydlodd y Llywodraeth Grŵp Gweithredol i fod yn gyfrifol am yrru'r gwaith ar y Fframwaith yn ei flaen, ac mae'r Grŵp yn adrodd ar gynnydd i Dasglu'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Nid yw'n eglur i'r Comisiynydd ar hyn o bryd pa weithdrefnau fydd yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y Fframwaith, ac i fesur cyflawniad a thraweffaith y Fframwaith ac yn arbennig sut eir ati i fesur gwelliant ym mhrofiad y claf a'r defnyddiwr.

Wrth fonitro gweithrediad rhai elfennau o strategaethau eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg, megis Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n deillio o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae'r Llywodraeth yn derbyn adroddiadau cynnydd blynyddol gan awdurdodau lleol, gyda rheoliadau a'r Ddeddf Safonau Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Credwn y dylid ymchwilio i effeithiolrwydd y dull hwn a dulliau o fonitro gweithrediad strategaethau eraill y Llywodraeth wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen wrth fonitro gweithrediad y Fframwaith hwn.

## **6. Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae gan Lywodraeth Cymru, pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru gynllun iaith Gymraeg a bydd angen i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig gwrdd â dyletswyddau deddfwriaeth benodol, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth i Lywodraeth Cymru fynd ati i gryfhau trefniadau cydweithio ar draws amryw wasanaethau. Nid yw diwygio'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu yn newid y ddyletswydd honno.

Fodd bynnag, ble mae integreiddio yn golygu perthynas waith agosach a phartneriaethau rhwng sefydliadau, ac nid integreiddio swyddogaethau mewn un sefydliad, mae'n cymhlethu trefniadau llywodraethu a gall arwain at ddiffyg tryloywder mewn perthynas â rolau, atebolrwydd a chyfrifoldebau. Gwerth yw nodi'r sylw canlynol sy'n codi o Gomisiwn diweddar Syr Paul Williams bod:

“...angen i ddinasyddion gael eglurder ynghylch sut y caiff cyfrifoldebau eu dosbarthu rhwng sefydliadau gwahanol er mwyn iddynt ddeall eu hawliau i

wasanaethau a sut i fanteisio arnynt. Mae ganddynt hefyd hawl i ddisgwyl gwasanaeth di-dor a chyd gysylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn diwallu anghenion, heb orfod negodi neu drefnu darpariaeth o'r fath ar wahân eu hunain."

Er mwyn lleddfu'r problemau hyn, dylai unrhyw gytundeb / contract rhwng sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyfeirio at yr angen i gydymffurfio â'u dyletswyddau deddfwriaethol mewn perthynas â'r Gymraeg, a rhoi eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau.

Wrth gynnal ymchwiliadau safonau y cyfeirir atynt yn adran 2 uchod, casglodd y Comisiynydd nad oedd y safonau yn gosod unrhyw ddyletswydd i ystyried y Gymraeg wrth gyd gynllunio gwasanaethau traws ffiniol. Mae'r Comisiynydd, yn adroddiad yr ymchwiliad safonau, wedi cynnig safonau ychwanegol y dylid eu pennu sy'n gosod dyletswydd ar sefydliadau i bennu'r camau y cymerir i gyflwyno gwasanaethau drwy'r Gymraeg pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyd ddarparu.

Er mwyn cydymffurfio ag ymrwymadau cyffredinol Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd, dylai Llywodraeth Cymru dalu sylw arbennig i bob cyfle i wella darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn ystod y broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd, asiantaethau statudol eraill a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd i adnabod y bylchau hyn a chynllunio ar gyfer unioni'r meysydd hynny lle nad yw siaradwyr Gymraeg yn cael gwasanaeth cyfartal â defnyddwyr di-Gymraeg ar hyn o bryd.

## 7. Presgripsiynau cyfrwng Gymraeg

Cafwyd achos ym mis Ionawr 2014 mewn fferyllfa ym Mangor lle yr ymddengys y gwrthodwyd presgripsiwn meddygol gan fod rhan ohono wedi'i llenwi'n uniaith Gymraeg. Yn ôl yr hyn a adroddwyd, nid oedd y fferyllfa dan sylw yn fodlon derbyn y presgripsiwn gan nad oedd yn cydymffurfio â chanllawiau gweinyddu presgripsiynau. Yn ôl y canllawiau hyn a gyhoeddir gan y British National Formulary (BNF) a Llywodraeth Cymru ar ffurf yr All Wales Prescription Writing Standards (AWPWS), a ystyrir i fod yn arfer gorau gan y proffesiynau meddygol, dylai presgripsiynau gael eu hysgrifennu yn Saesneg yn unig.

Yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiynydd, daethpwyd i'r casgliad nad oes sail statudol i'r hyn a ddywed y BNF nac yn yr AWPS ynglŷn â'r defnydd o'r Saesneg, ac nid oes deddf sy'n pennu na ellir defnyddio'r Gymraeg ar gyfer ysgrifennu cyfarwyddiadau i'r claf.

Cyflwynodd y Comisiynydd argymhellion i Weinidogion Cymru yn unol â'i swyddogaethau yn Rhan 2, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn sicrhau y gellir rhoi cyfarwyddiadau i'r claf yn y Gymraeg ar bresgripsiynau.

Yn dilyn cyflwyno'r argymhellion, bu cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ble cytunwyd y byddai'r Llywodraeth yn cymryd cyfres o gamau er mwyn gweithredu'r argymhellion. Addawyd y byddai'r Gweinidog yn darparu diweddariad i'r Comisiynydd ar weithrediad y camau hyn cyn toriad yr haf.

## 8. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Cyflwynwyd tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Fehefin 17eg, 2013. Datganwyd pryder ynghylch diffyg cyfeiriadau uniongyrchol at y Gymraeg ar wyneb Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ynghyd â'r anghysondeb yn y modd yr ystyrir y Gymraeg gan adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiynydd wedi pwysleisio ar sawl achlysur bwysigrwydd ystyried y Gymraeg fel mater llorweddol mewn amrywiol destunau a meysydd polisi. Mae hyn yn cynnwys gwneud a gweithredu deddfwriaeth.

Mewn briff a gyflwynodd y Comisiynydd dan adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, llefarwyr y gwrthbleidiau ar Iechyd a gofal cymdeithasol a llefarwyr y gwrthbleidiau ar yr iaith Gymraeg, cyflwynodd y Comisiynydd y gwelliannau canlynol i'r Bil yn ystod cyfnod 2 taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Credwn fodd bynnag bod angen i'r Llywodraeth ystyried yr angen i gynnwys ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg mewn biliau o'r cychwyn, ac mai priod ddiben y cyfnod gwelliannau yw mireinio'r ystyriaethau hynny.

### Gwelliannau Cyfnod Dau

#### Diffinio 'Llesiant'

*Dylai diffiniad y Bil o 'Llesiant' gynnwys yr angen i fod yn sensitif i anghenion ieithyddol y rhai hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg, yn arbennig yn achos plant. Mae'r ystyriaethau dros wneud hyn fel a ganlyn: -*

*Dylai awdurdod cyfrifol fod yn ymwybodol o iaith a diwylliant plant ac oedolion er mwyn diogelu a hybu eu lles, yn arbennig yn achos plentyn.*

*Dylai awdurdod fod yn gyfrifol am sicrhau fod plant ac oedolion yn meddu ar bob*

*gwybodaeth angenrheidiol er mwyn gofalu am eu lles. Gall hyn olygu fod gwybodaeth ar gael yn yr iaith Gymraeg os mai dyna yw iaith yr unigolyn neu'r teulu.*

*Dylai'r cyfrwng iaith fod yn addas i oedran a datblygiad unigolyn ac yn parchu iaith bob dydd y teulu. Yn ogystal dylid parchu dymuniadau ieithyddol y plentyn er mwyn diogelu a hybu lles y plentyn hwnnw.*

*Dylai cyfweiliadau gael eu cynnal yn dewis iaith y plentyn ac yn achos aelodau'r teulu – yn eu dewis iaith hwythau - er mwyn diogelu a hybu lles y plentyn.*

*Dylid cymhwyso'r egwyddor uchod i wyneb y Bil fel y gellir ei weithredu'n ymarferol. Dylai'r egwyddor fod yn gymwys i unrhyw unigolyn sydd angen gofal ac sy'n arfer y Gymraeg.*

## RHAN 2

*Cofrestrau o bobl ddall, pobl fyddar a phob anabl*

*-Yn adran 9, ychwaneger is adran yn dweud fod yn rhaid cofrestru beth yw iaith y personau ar gofrestr is adran (1) fel y gellir diwallu anghenion iaith y personau - boed yn Gymraeg neu Saesneg.*

## RHAN 3

*Asesu Anghenion Unigolion - oedolion, plant a gofalwyr*

*-Yn adran 18 (2)(b) –ychwaneger dyletswydd i gynnal asesiad yn yr iaith Gymraeg yn unol ag anghenion iaith neu ddewis iaith y person.*

## RHAN 4

*Diwallu anghenion - oedolion, plant a gofalwyr*

*-Ychwaneger y ddyletswydd ar awdurdodau i ddiwallu anghenion ieithyddol oedolion, plant neu ofalwyr yn unol â'u hanghenion neu ddewis iaith – naill ai yn yr iaith Gymraeg neu yn yr iaith Saesneg.*

## RHAN 6

*Prif ddyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn y mae'n gofalu amdano*

*- Ychwaneger y ddyletswydd ar awdurdodau i ddiwallu anghenion ieithyddol plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. e.e. dweud fod yn rhaid i'r swyddogaethau canlynol gael eu cynnig yn Gymraeg:-*

*- gwneud cyswllt*

*- ymweld gyda phlentyn neu deulu*

*- darparu gwasanaeth ymgyfeillio a chynghori*

*- cynghorwr personol unigolyn*

*- Ychwaneger hefyd yn adran 62 (3) (b) ac ar ddiwedd y cymal presennol y geiriau "yn enwedig yng nghyswllt plentyn sydd â'r iaith Gymraeg yn iaith gyntaf" ac,*

*- yn 76 (d) ychwaneger ar ddiwedd cymal (i) y geiriau "yn enwedig yng nghyswllt plentyn sydd â'r iaith Gymraeg yn iaith gyntaf" ac,*

*-ar ddiwedd cymal 76 (d) (ii) ychwaneger y geiriau "gan gynnwys plentyn sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf"*

Roedd y gwelliant mewn perthynas â'r Gymraeg a welwyd yn y Bil terfynol fel a ganlyn, a gobeithiwn y bydd yn arwain at ganlyniadau da i'r rhai hynny sy'n dymuno derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Adran 13, tudalen 11, ar ôl llinell 10, mewnosoder -*

*'(f) y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod a'r lefel o wasanaethau a nodir yn un â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.*



## Atodiad 1

### Sefydliadau Iechyd a Gofal sy'n cael eu Cynnwys yng Nghylch 2 a 3 yr Ymchwiliadau Safonau

Tudalen y pecyn 34

<b>Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Lleol etc</b>	Byrddau Iechyd Lleol (7)	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Bwrdd Iechyd Cwm Taf Bwrdd Iechyd Hywel Dda
	Cynghorau Iechyd Cymuned (9)	Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed

## Atodiad 1

		<p>Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf</p> <p>Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda</p> <p>Cyngor Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn</p> <p>Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru</p>
	Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (3)	<p>Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru</p> <p>Ymddiriedolaeth GIG Felindre</p> <p>Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>
	Awdurdod Iechyd Arbennig	Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG
	Y Cyngorau Sgiliau Sector (2)	<p>Sgiliau Gofal a Datblygu</p> <p>Sgiliau Iechyd</p>
	Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cyngor	Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Atodiad 1

Tudalen y pecyn 36

	Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd yn Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)	(Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd yn Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)
	Cyngor Gofal Cymru	Cyngor Gofal Cymru
	Cyngor Meddygol Cyffredinol	Cyngor Meddygol Cyffredinol
	Cyngor Ceiropractig Cyffredinol	Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
	Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Cyngor Deintyddol Cyffredinol
	Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth	Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth
	Cyngor Optegol Cyffredinol	Cyngor Optegol Cyffredinol
	Cyngor Osteopatheg Cyffredinol	Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
	Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal	Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

## Atodiad 1

Atodlen 5 (1) – Awdurdodau Cyhoeddus	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	Partneriaeth cydwasanaethau GIG Cymru
Atodlen 5 (1) – Awdurdodau Cyhoeddus	Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
Atodlen 5 (1) – Awdurdodau Cyhoeddus	Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol	Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o  £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol—  (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu  (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.	Hafal	Hafal
Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o  £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus	Wallich-Clifford Community	Wallich-Clifford Community

## Atodiad 1

Tudalen y pecyn 38

<p>mewn blwyddyn ariannol—</p> <p>(a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu</p> <p>(b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.</p>		
<p>Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o</p> <p>£400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol—</p> <p>(a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu</p> <p>(b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.</p>	Gofal Cymru	Gofal Cymru
<p>Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn</p>	Leonard Cheshire Disability	Leonard Cheshire Disability

## Atodiad 1

<p>cyfanswm o</p> <p>£400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol—</p> <p>(a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu</p> <p>(b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.</p>		
<p>Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o</p> <p>£400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol—</p> <p>(a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu</p> <p>(b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.</p>	<p>Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (Royal Voluntary Service)</p>	<p>Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (Royal Voluntary Service)</p>

# Eitem 3

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

---

Dyddiad: **Dydd Mercher, 18 Mehefin 2014**

---

Amser: **09.32 – 10.46**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_200000\\_18\\_06\\_2014&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_18_06_2014&t=0&l=cy)

---

### Cofnodion Cryno:

---

#### Aelodau'r Cynulliad:

---

David Rees AC (Cadeirydd)  
Leighton Andrews AC  
Rebecca Evans AC  
Janet Finch–Saunders AC  
Elin Jones AC  
Darren Millar AC  
Lynne Neagle AC  
Gwyn R Price AC  
Lindsay Whittle AC

---

#### Tystion:

---

Sharon Hillier, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Dr Dyfed Huws, Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser  
Cymru (WCISU)  
Dr Pat Riordan, Iechyd Cyhoeddus Cymru

---

#### Staff y Pwyllgor:

---

Helen Finlayson (Ail Clerc)  
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)  
Stephen Boyce (Ymchwilydd)  
Victoria Paris (Ymchwilydd)

---

## **TRAWSGRIFIAD**

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

### **1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams.

### **2 Ymchwiliad i'r cynnydd hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 6**

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2. Cytunodd Sharon Hillier i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch nifer y menywod dros 70 oed sy'n hunan-gyfeirio ar gyfer gwasanaethau sgrinio cancer y fron.

### **3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

### **4 Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – trafod y trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus a chytunwyd arnynt.

### **5 Papurau i'w nodi**

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.





in cyf/Our ref: LF/GT/0579/14

David Rees AC  
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

26 Mehefin 2014

Annwyl David,

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Adroddiad y Grŵp Technegol ar Gymhwystra**

Rwy'n gwybod bod gan y Pwyllgor ddiddordeb brwd yn natblygiad y meini prawf ar gyfer cymhwystra o dan Ran Pedwar o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ysgrifennais atoch ar 5 Mawrth i'ch hysbysu am y Grŵp Technegol ar Gymhwystra a gafodd ei sefydlu i roi cyngor imi am y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer ar bennu cymhwystra ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth o dan y Ddeddf.

Mae gwaith y Grŵp Technegol eisoes wedi'i gwblhau a'i brofi gan ein prif bartneriaid drwy ddigwyddiadau i feithrin perthynas â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC), Panel y Dinasyddion, ac ADSS Cymru. Cafodd y broses ddatblygu hon ei hwyluso'n annibynnol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, ac yn dilyn hynny, mae'r Adroddiad wedi cael ei ddiwygio i amlygu'r materion a oedd wedi codi yn ystod y broses honno.

Amgaeaf gopi o'r Adroddiad yr wyf yn bwriadu ei gyhoeddi ar ein gwefan, er mwyn i bobl gynnig eu sylwadau dros yr haf. Rwy o'r farn bod yr Adroddiad yn cynnig fframwaith ar gyfer cymhwystra y gallwn ei rannu â rhanddeiliaid gwleidyddol a rhai ehangach, a'n bwriad yw mireinio'r model hwn drwy broses o feithrin perthynas tra bo'r rheoliadau'n cael eu drafftio.

Mae'r Adroddiad yn cynnig tri opsiwn ar gyfer model cymhwystra. Argymhelliad y Grŵp Technegol oedd dilyn Opsiwn 3, sy'n golygu newid y ffordd y mae cymhwystra'n cael ei bennu yn sylfaenol. Fel canlyniad, bydd cael mwy o amser i feithrin cysylltiad â rhanddeiliaid mewn modd mwy pwylllog o werth mawr. Rwy'n bwriadu rhoi gwybod bod yr Adroddiad wedi'i gyhoeddi yn fy mhrif araith yng Nghynhadledd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddaf hefyd yn cyflwyno Opsiwn 3, sef y model yr wyf o blaid anelu ato drwy reoliadau. Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ffafrio am y rhesymau canlynol:

- Mae'r ffordd hon o bennu cymhwysra'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng dyletswyddau cyffredinol awdurdodau lleol i gyflawni canlyniadau llesiant y bobl yn eu hardaloedd (yn ôl yr hyn a amlinellir yn Rhan 2 y Ddeddf) a sefydlu hawl gorfodadwy ar gyfer yr unigolyn (yn ôl yr hyn sy'n ofynnol yn Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf).
- Mae'n annog awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ogystal â darparu gwasanaethau ataliol, er mwyn hybu mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd cymunedol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan eu defnyddwyr, a'r trydydd sector.
- Mae'r opsiwn yn cefnogi hawliau pobl i drafod eu lles mewn modd parchus, i gael llais cryf mewn penderfyniadau am eu gofal, ac i gadw rheolaeth dros eu gofal.
- Bydd yn sicrhau bod pobl yn gwneud penderfyniadau eu hunain am eu gofal, a'u bod yn gallu cynnal eu lles ar bob adeg drwy ddefnyddio dull sydd wedi'i seilio ar gryfderau.
- Mae'r model hefyd yn rhoi sylw i natur byrhoedlog cymhwysra. Er bod statws yr angen o ran bod yn angen 'cymwys' yn gallu newid, mae'r gallu i gael y cymorth iawn i sicrhau canlyniadau llesiant yn cael ei gynnal.
- Fel rhan o'r model hwn, mae'r angen am help i gael cymorth yn creu'r cymhwysra, ac mae hynny'n ei wneud yn ofyniad gofynnol/cyfreithiol i'r awdurdod lleol ymateb.

Mae llwyddiant y model yn dibynnu ar sicrhau bod holl elfennau'r system cymorth yn gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, bydd rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu darparu mewn modd hygyrch, a bod proses asesu addas ar waith i gefnogi'r drafodaeth ar gymhwysra. Mae'r meysydd hyn yn cael eu hystyried hefyd mewn grwpiau technegol, a hynny yng nghyd-destun y model ar gyfer cymhwysra sy'n cael ei argymhell yn yr Adroddiad.

Ar y cyd, bydd y set ehangach o reoliadau a'r cod ymarfer yn llunio'r darlun cyfan, er mwyn gweithredu'r Ddeddf. Fel canlyniad, byddem yn argymhell ein bod yn ymgynghori ar yr holl reoliadau ar y cyd, gan gynnwys y rheoliadau ar gymhwysra, er mwyn cyflwyno dull system gyfan o weithredu i'r cyhoedd. Rydym yn bwriadu cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn hwn ar y rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn yr hydref. Rwy'n sylweddoli bod hynny'n newid fy ymrwymiad blaenorol i ymgynghori ar y rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn yr haf, i'r hydref. Fodd bynnag, gan fod y model ar gyfer cymhwysra'n cynnig ailwampio'r system bresennol, ac mae wedi'i integreiddio'n agos â'r fframwaith asesu a chynllunio gofal ehangach, rwy am aildrefnu dyddiad yr ymgynghoriad ffurfiol, fel bod gennym mwy o amser i roi sylw i'r Adroddiad.

Bydd fy swyddogion ar gael i roi briff technegol i'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn dilyn hynny, byddaf yn cynnig ymddangos gerbron y Pwyllgor i ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad. Yn y cyfamser, byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r llythyr hwn a'r Adroddiad ag aelodau'r Pwyllgor, a byddwn yn falch o drafod y model cymhwysra ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC / AM**

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services

# Eitem 3.2

## Pwyllgor Cyllid

### Finance Committee

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor CYPE  
Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor  
CELG

26 Mehefin 2014

William Graham AC, Cadeirydd y Pwyllgor E&B  
Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor E&S  
David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor HSC

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Yn ein cyfarfod ar 18 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor Cyllid i ddatblygu ar ddull y llynedd o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rwy'n ysgrifennu at holl gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau, ac i annog eich pwyllgor i ystyried sut y gall gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf effeithiol o gynlluniau gwario'r Llywodraeth.

## Ffocws y gyllideb

Byddwch yn cofio, wrth ymgymryd â'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft 2014-15, cytunodd pob pwyllgor i fabwysiadu dull cydgysylltiedig, sy'n seiliedig ar y perfformiad a'r canlyniadau sydd i'w cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael, a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cyhoedd yn gyffredinol (sy'n seiliedig ar adborth o'n gwaith o ymgysylltu).

Roedd y dull hwn yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor sy'n sail i waith craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb. Defnyddiwyd yr egwyddorion hyn fel sail ar gyfer pob briff, sesiwn dystiolaeth ac adroddiad y pwyllgorau. Mae'r nodyn isod yn ein hatgoffa beth yw'r egwyddorion:

- **Fforddiadwyedd** - y darlun cyfan o gyfanswm y refeniw a'r gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt;
- **Blaenoriaethu** - a ellir cyfiawnhau'r modd y rhennir dyraniadau rhwng gwahanol sectorau/rhaglenni ac a ydynt yn ystyrion; a,
- **Gwerth am arian** - yn ei hanfod, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - yn ddarbodus, effeithlon ac yn effeithiol (h.y.) canlyniadau; a

Ffon / Phone: 029 2089 8120

Ffacs / fax: 029 2089 8021

Ebost / Email: [financecommittee@wales.gov.uk](mailto:financecommittee@wales.gov.uk)

- **Phroses y gyllideb** – a yw'n effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng gwaith cynllunio corfforaethol a gwasanaethau a rheolaeth ariannol a pherfformiad.

Efallai y byddwch hefyd yn cofio, y llynedd fe wnaethom annog y Pwyllgor i ystyried gwariant ataliol. Eleni rydym yn eich annog i ganolbwyntio ar atal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael blwyddyn i ystyried sut i ymateb i geisiadau gan bwyllgorau am wybodaeth yn ymwneud â gwariant ataliol. Gall gwaith craffu ar wariant ataliol hefyd gael ei gysylltu â'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni, a sut y caiff y rhain eu mesur/monitro.

Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi fod Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei [Adroddiad Cynnydd ar y Rhaglen Lywodraethu](#) yn ddiweddar. Er y bydd gan y pwyllgorau eu meysydd blaenoriaeth eu hunain i'w hystyried yn ystod y gwaith o graffu ar y gyllideb, efallai y bydd yn ddefnyddiol pe baech yn ystyried y meysydd a nodir isod. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn awgrymu bod pwyllgorau polisi yn ystyried cynnwys ffocws eu gwaith craffu, ar ba mor effeithiol fu Llywodraeth Cymru o ran hwyluso'r gwaith o olrhain dyraniadau i raglenni, cynnyrch a mesur canlyniadau o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Yn olaf, dylai'r gwaith o graffu ar y gyllideb sicrhau bod y Gymraeg, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant yn cael eu prif-ffrydio i'r gwaith. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ddyletswydd hon wedi bod yn gymwys mewn cysylltiad â datblygu neu newid deddfwriaeth neu bolisi ers mis Mai 2012, ond fe'i hystynnwyd ym mis Mai 2014 i gynnwys pob swyddogaeth weinidogaethol.

### **Ymgynghori cyn y cyllideb**

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymgynghoriad ar broses y gyllideb dros yr haf. Y llynedd, cawsom ymatebion gwybodus i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y gyllideb, ac eto byddwn yn gofyn i randdeiliaid am eu barn *cyn* bod y Cynulliad yn dychwelyd yn yr hydref.

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Yn y gorffennol, gwelsom fod y gwaith a wnaed gan rai pwyllgorau polisi mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid am bynciau penodol, yn ddefnyddiol iawn, ac rydym wedi defnyddio'r adborth o'r digwyddiadau hyn i lunio ein cwestiynau a'n hargymhellion o ran y gyllideb ddrafft. Hoffem annog yr holl bwyllgorau i ystyried beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'u rhanddeiliaid fel rhan o'r broses. Mae'n bosibl y byddwch am nodi hefyd, yn dilyn y gwaith o graffu ar y gyllideb y llynedd, gwnaethpwyd yr argymhelliad a ganlyn:

*Dylai pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol barhau i ddefnyddio dulliau arloesol o gynnwys llais y cyhoedd yn y gwaith o graffu ar y gyllideb. Dylent ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnwys llais y cyhoedd ar gyfer cylch y gyllideb y flwyddyn nesaf. Gall hyn gynnwys mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a/neu weithio fel rhan o'r ymdrech i ymgysylltu'n ehangach â phobl ifanc.*

## Amserlen

Ar hyn o bryd rydym yn aros am gyhoeddi dyddiad y gyllideb ddrafft, ond gwyddoch o bosibl fod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi nodi y bydd yn barod i ganiatáu wythnos o amser ychwanegol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft. Gobeithio y bydd yr wythnos ychwanegol hon yn rhoi amser i bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad mewn da bryd i ni allu ystyried eich argymhellion pan fyddwn yn drafftio ein hadroddiad. Gan nad yw dyddiad y gyllideb ar gael eto, rwyf wedi gofyn i Glerc y Pwyllgor Cyllid roi gwybod i glercod y pwyllgorau pwnc perthnasol pan fydd y dyddiad ar gael, a byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi gyflwyno eich adroddiad cyn y dyddiad y trefnwyd i'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid (sydd i'w gadarnhau pan gyhoeddir dyddiad y gyllideb).

Yn olaf, awgrymwyd y byddai rhai Cadeiryddion yn ei gweld yn ddefnyddiol pe cynhelid cyfarfod rhwng yr holl gadeiryddion pwyllgor, lle y gallem drafod y dull gweithredu o ran craffu ar y gyllideb a sut y mae modd i ni sicrhau bod gennym ddull cyson a chydlynol eleni. Gallai'r cyfarfod hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod cydgysylltiad rhwng y pwyllgorau i sicrhau bod cytundeb o ran pa feysydd portffolio a gaiff eu cynnwys yn y gwaith o graffu, fel cyfrifoldebau'r Prif Weinidog mewn perthynas â'r Gymraeg a staffio'r gwasanaeth sifil. Os credwch y byddai hyn yn ddefnyddiol, rhowch wybod i Glerc y Pwyllgor Cyllid, a byddwn yn trefnu'r cyfarfod.

Os oes gennych gwestiynau ar unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu â Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid, 02920 89 8120, [Bethan.Davies@Wales.gov.uk](mailto:Bethan.Davies@Wales.gov.uk).

Yn gywir,



**Jocelyn Davies AC**  
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Ffon / Phone: 029 2089 8120

Ffacs / fax: 029 2089 8021

Ebost / Email: [financecommittee@wales.gov.uk](mailto:financecommittee@wales.gov.uk)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon